

# Digimap for Schools

## Sut i fynd i dŷ nain yn ddiogel?

Paula Owens

### Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 1



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r lluo o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd i weddu eich dosbarth a'r disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

### Teitl: Sut i fynd i dŷ nain yn ddiogel?

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 1	Peryglon yn yr amgylchedd lleol	Unrhyw le yn y Deyrnas Unedig

Gwybodaeth	Adnabod nodweddion syml ar fap/creu mapiau sy'n dangos llwybrau a nodweddion/gwybod sut i gadw'n ddiogel yn yr awyr agored
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Lleoli a disgrifio lleoedd yn yr ardal, rheoli peryglon a chadw'n ddiogel
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Amlygu nodweddion eu hardal. Datblygiad Personol a Chymdeithasol: Datblygu dealltwriaeth o beryglon yn yr awyr agored.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle ac Amgylchedd: 1-07a, 1-08a, 1-11a

## Gweithgaredd

Mae'r gweithgaredd yn defnyddio ffilm a wnaethpwyd gan ddisgyblion o Ysgol Gynradd Southborough yng Nghaint i helpu disgyblion i feddwl am beryglon yn yr ardal leol. Mae'r ffilm yn seiliedig ar daith yr Hugar Fach Goch, ond mae'r 'Blaidd Drwg' yn newid i fod yn 'Flaid Da' sy'n ei helpu hi sylwi ar beryglon ar hyd y ffordd a sut i'w hosgoi. Ar ôl gwyllo'r ffilm, mae'r disgyblion yn meddwl am y lleoedd o'u cwmpas a allai fod yn beryglus ac yn mapio llwybr er mwyn eu dangos.

## Cyflwyniad

Mae'r gweithgaredd hwn yn thema ddefnyddiol ar gyfer gwaith maes, ond mae modd ei wneud heb fynd y tu allan. Mae cynnwys disgyblion mewn asesiad risg o'u hardal leol yn arfer da, yn enwedig os ydynt yn mynd allan i wneud gwaith maes. Mae *Digimap for Schools* yn galluogi disgyblion i glosio ar fap ac edrych ar nodweddion megis strydoedd, llwybrau cefn, siopau, coed a pharciau o gwmpas yr ysgol, gan eu hysgogi i feddwl am beryglon posibl mewn gwahanol leoedd. Mae cysylltiad cryf rhwng mapiau a storïau. Mae cyfeirio at gyfeiriadau gweledol a gofodol yn cynorthwyo sgiliau adrodd stori ac ysgrifennu megis gosod yr olygfa, dilyniant a chyd-destun.

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Prif weithgaredd

Atgoffwch y plant am stori draddodiadol Hugar Fach Goch a'r Blaidd, a dangoswch iddynt y ffilm fer gan blant o Ysgol Gynradd Southborough lle mae'r 'Blaidd Drwg' yn newid i fod yn 'Flaidd Da' ac yn helpu Hugar Fach Goch gadw'n ddiogel ar hyd ei thaith. Gofynnwch i'r disgyblion wneud nodyn o'r gwahanol leoedd y mae Hugar Fach Goch yn ymweld â nhw wrth iddynt wyllo'r ffilm.

Trafodwch y lleoedd yr aeth Hugar Fach Goch iddynt yn ystod y ffilm (coedwig, ffordd brysur, llwybr cefn, is-orsaf drydan a maes chwarae) ac a oes unrhyw rai o'r rhain yn eu hardal nhw. Defnyddiwch fap o'ch ardal leol i'ch helpu. Gofynnwch i'r disgyblion pa fathau o leoedd eraill allai fod yn beryglus. Eglurwch eich bod am greu llwybr dychmygol ar gyfer Hugar Fach Goch yn eich ardal sy'n cynnwys lleoedd a allai fod yn beryglus. Mapio'r llwybr fydd y dasg, gan amlygu a disgrifio'r peryglon ym mhob man. Cynigiwch ddelweddau o'r awyr i helpu'r disgyblion edrych yn fanylach ar y manau a awgrymir.

Gallech ofyn i'r disgyblion weithio mewn grwpiau o bedwar neu bump i edrych am bump neu chwe lle yn eu hardal. Addaswch hyn yn ôl beth sy'n gweddu eich disgyblion.

Bydd pob grŵp yn creu map sy'n dangos y llwybr a'r lleoedd ar hyd y ffordd. Bydd pob unigolyn yn y grŵp yn gyfrifol am un o'r lleoedd ac yn gallu egluro'r perygl a'r camau posibl a allai gael eu cymryd yno. Rhowch amser i'r disgyblion gasglu gwybodaeth; disgrifiwch y peryglon a'r camau ar lafar ac, yn olaf, rhowch amser iddynt gydweithio a datblygu stori eu grŵp.

Defnyddiwch yr ysgol fel man cychwyn a gorffen ar gyfer taith ddychmygol gan Hugar Fach Goch. Bydd angen i ddisgyblion greu llwybr cylchol sy'n dechrau ac yn gorffen yn yr ysgol.

## Tasgau

Yn eich grŵp:

1. Trafodwch y lleoedd sydd ger yr ysgol a'r peryglon posibl a allai fod yno. Lluniwch restr o leoedd a pheryglon, er enghraifft, y stryd fawr leol a ffyrdd prysur.
2. Agorwch Digimap a thepiwch god post eich ysgol yn y bar chwilio i ddod o hyd i'ch ardal.



3. Gallech ddefnyddio'r bar graddfa i glosio a phellhau neu symud y map nes byddwch wedi dod o hyd i'r lleoedd a ddaeth i'ch meddwl. Edrychwch ar y map yn ofalus a gweld a ydych wedi



anghofio am rai lleoedd. Dewiswch y lleoedd mwyaf addas.



# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

4. Dynodwch y lleoedd yr ydych yn eu dewis a'u labelu. Agorwch far yr Anodiadau a dewiswch 'Add Marker' (Ychwanegu Dynodwr).



Dewiswch y dynodwr yr ydych am ei ddefnyddio a chlicio'r lle ar y map lle'r ydych am ei roi. Wedyn, cliciwch 'Place label' (Gosod label) o'r adran 'Draw and Create' (Llunio a Chreu) ar y bar offer, a dewiswch faint eich testun. Cliciwch ger y dynodwr yr ydych newydd ei ychwanegu ac ysgrifennwch enw'r lle. Gwnewch hyn eto ac ychwanegwch label arall i ddweud beth yw'r perygl. Fel arall, gallwch geisio ysgrifennu enw'r lle a'r perygl ar un label.



## Mynd gam ymhellach

- Crëwch fap 'perygion' y dosbarth o'r ardal sy'n dangos yr holl beryglon y mae'r disgyblion wedi'u canfod i greu canllaw am sut i gadw'n ddiogel yn yr ardal leol.
- Cysylltwch hyn â gwaith maes a'i ddefnyddio fel gwaith paratoi asesiad risg y disgyblion.
- Ceisiwch osod y stori mewn lleoliad anghyfarwydd a chyferbyniol.
- Gwnewch eich ffilm eich hun gan ddefnyddio fformat stori syml am daith.

## Dolenni ar y we

Gwylwch y ffilm gan Ysgol Gynradd Southborough a'r athro Jonathon Kersey a lawrlwythwch yr adnoddau ategol gan gynnwys y dogfennau cynllunio a gwerthusiad yr athro.

<http://www.geography.org.uk/projects/younggeographers/resources/southborough/>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Fy asesiad risg o'r ardal leol

Ysgrifennwch eich asesiad risg eich hun. Ceir enghraifft isod. Ystyriwch yn ofalus pwy sy'n gyfrifol am eich cadw chi'n ddiogel.

Lle neu nodwedd	Perygl	Cam angenrheidiol	Pwy sy'n gyfrifol?
<i>Y ffordd y tu allan i'n hysgol.</i>	<i>Mae rhai ceir yn mynd yn gyflym iawn.</i>	<i>Aros, edrych a gwrando.</i>	<i>Fi.</i>